
Estyn

Hydref 2022



# Ymagweddau effeithiol wrth asesu sy'n gwella addysgu a dysgu

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Crynodeb gweithredol** | **1** |
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Cefndir** | **3** |
| **Prif ganfyddiadau** | **6** |
| **Argymhellion** | **8** |
| **Cynllunio ar gyfer asesu** | **9** |
| **Defnyddio asesu i gefnogi addysgu ymatebol** | **15** |
| **Datblygu ymagweddau cydweithredol at asesu yn yr ystafell ddosbarth** | **21** |
| **Dulliau a sail y dystiolaeth** | **28** |
| **Geirfa** | **29** |
| **Cyfeiriadau** | **30** |

# Crynodeb gweithredol

Yn nhymor y gwanwyn 2022, ymwelom â sampl o ysgolion cynradd, uwchradd, ysgolion pob oed ac arbennig ledled Cymru i edrych ar sut roeddent yn defnyddio asesu i gefnogi a gwella eu haddysgu, a dysgu disgyblion. Roeddem wedi cydnabod yn y gorffennol fod gan yr ysgolion hyn arferion cryf mewn addysgu. Roeddent yn cynrychioli ystod eang o leoliadau daearyddol, ieithyddol ac economaidd-gymdeithasol. Cynhaliom gyfweliadau ag uwch arweinwyr, athrawon dosbarth a staff cymorth i drafod eu safbwyntiau, a dod i wybod am eu polisi a’u harferion. Fe wnaethom gyfarfod â grwpiau o ddisgyblion ar draws y rhan fwyaf o grwpiau oedran, ac ystyried enghreifftiau o’u gwaith. Hefyd, arsylwom amrywiaeth o sesiynau addysgu ac edrych ar ddetholiad o ddogfennau y rhannodd yr ysgolion hyn â ni.

Canfuom fod arweinwyr yn y rhan fwyaf o’r ysgolion yr ymwelom ni â nhw wedi ystyried yn ofalus sut y gellir datblygu ymagweddau at asesu i adlewyrchu cyd-destun y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn cydnabod bod asesu yn hanfodol i addysgu da ac wedi defnyddio’r cyfle a roddwyd gan ddiwygio’r cwricwlwm i gryfhau arfer dda sy’n bodoli eisoes. Os yw’r defnydd o asesu yn hynod gryf, maent yn sicrhau bod ganddo rôl ffurfiannol mewn gwella addysgu, ac yn helpu disgyblion i ddeall eu dysgu’n well. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr a staff yn aml wedi symud oddi wrth ffocws ar ddefnyddio data crynodol ar gyfer atebolrwydd allanol. Yn hytrach, maent wedi meddwl yn fwy gofalus am y modd y mae eu harferion asesu yn nodi’r cynnydd y mae disgyblion yn ei wneud ar draws y cwricwlwm, a sut y gellir addasu eu haddysgu i ymateb i’r wybodaeth hon.

Mae’r ysgolion hyn yn sicrhau bod datblygiad proffesiynol yn canolbwyntio’n gadarn ar gynorthwyo staff i ddeall arferion asesu ffurfiannol a sut y gellir cymhwyso gwahanol ymagweddau yn hyblyg, yn dibynnu ar gyd-destun yr ysgol a’r disgyblion. Yn yr achosion gorau, ceir diwylliant cryf o gydweithio rhwng staff a disgyblion, lle mae pob un ohonynt yn myfyrio’n agored ac yn onest ar effaith yr asesu ar ddysgu a chynlluniau am gyfleoedd rheolaidd i drafod a mireinio arfer.

Mae arweinwyr mewn llawer o’r ysgolion hyn yn datblygu systemau defnyddiol sy’n annog staff i fyfyrio’n rheolaidd ar eu haddysgu o ddydd i ddydd, ac yn gwneud yn siŵr eu bod yn ymateb i anghenion disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio’n ofalus ar gyfer cyfleoedd sy’n eu helpu i nodi pa mor dda y mae disgyblion wedi deall neu’n gallu cymhwyso gwybodaeth a medrau a ddysgwyd. Yn yr ystafelloedd dosbarth hyn, mae athrawon yn defnyddio arferion asesu i gasglu amrywiaeth o wybodaeth yn barhaus am ddysgu disgyblion, a gwneud penderfyniadau gwybodus am gynnydd. Defnyddiant holi yn fedrus i brocio dealltwriaeth, gweithio gyda grwpiau llai ac unigolion i drafod eu gwaith a nodi camdybiaethau. Yn yr achosion gorau, defnyddiant y wybodaeth hon i ymateb i ddisgyblion ‘ar y pryd’ a dylanwadu ar y camau nesaf mewn addysgu.

Mewn llawer o’r ysgolion yr ymwelom ni â nhw, mae athrawon wedi datblygu strategaethau effeithiol i gynnwys disgyblion yn y broses ddysgu ac asesu, a datblygu eu hannibyniaeth a’u cymhelliant wrth wella’u gwaith. Mae’r athrawon hyn

yn defnyddio eu crebwyll proffesiynol i benderfynu pryd orau i rannu neu gyd-greu bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant gyda disgyblion. Maent yn darparu enghreifftiau da o ddysgu, sy'n helpu disgyblion i ddeall yr hyn y maent yn gweithio tuag ato, a sut i lwyddo. Defnyddiant adborth adeiladol, ffocysedig, yn ystod gwersi a thros gyfnod, gan sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymateb i adborth i ddyfnhau eu dysgu.

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, gwelsom athrawon ac arweinwyr yn meddwl yn ofalus am rôl asesu cyfoedion a hunanasesu, a sut y gellir ei ddefnyddio'n fwy buddiol i gefnogi dysgu. Lle gwneir hyn yn dda, mae athrawon yn cyflwyno cyfleoedd rheolaidd i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau mewn gwerthuso eu dysgu eu hunain a dysgu disgyblion eraill yn raddol. Mae staff yn deall y rhwystrau cymdeithasol posibl sy'n gysylltiedig pan fydd disgyblion hŷn yn rhannu eu dysgu, ac yn gweithio'n galed i oresgyn y rhain trwy ei integreiddio fel rhan naturiol o'r broses ddysgu. Maent yn datblygu disgwyliadau clir ar gyfer disgyblion wrth roi adborth i'w cyd-ddisgyblion, ac o ganlyniad, yn yr ysgolion hyn, mae disgyblion yn aml yn mwynhau cael eu herio gan eu cyfoedion ac yn gweld gwerth yn y broses.

Rydym wedi gwneud yr argymhellion canlynol i ysgolion i'w helpu i ddatblygu eu gwaith mewn perthynas ag asesu:

- Blaenoriaethu ymagweddau at asesu sy'n dyfnhau dealltwriaeth athrawon o ddysgu disgyblion a'u cynnydd
- Datblygu dealltwriaeth athrawon ac arweinwyr o arferion asesu ffurfiannol effeithiol yn yr ystafell ddosbarth
- Sicrhau bod athrawon yn defnyddio gwybodaeth am asesu i addasu eu haddysgu i gefnogi a herio'r holl ddisgyblion yn briodol
- Ymgorffori cyfleoedd systematig i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn gwerthuso a gwella eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion

Rydym hefyd wedi gwneud yr argymhellion canlynol i Lywodraeth Cymru, consortia ac awdurdodau lleol:

- Datblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol adeiladol i ysgolion wella'u dealltwriaeth a'u defnydd o arferion asesu ffurfiannol
- Hwyluso a chefnogi cydweithio ar draws ysgolion i ddatblygu dealltwriaeth arweinwyr ac athrawon o ddilyniant, a rhannu arfer effeithiol mewn asesu ffurfiannol

## Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ei lythyr cylch gwaith i Estyn ar gyfer 2021-2022. Mae’n canolbwyntio ar sut mae ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig a gynhelir yn datblygu ymagweddau effeithiol at asesu sy’n gwella addysgu a dysgu.

Mae’r adroddiad wedi’i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, penaethiaid a staff mewn ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Mae’n rhan o gyfres o adroddiadau sy’n rhoi arweiniad yn ystod y cyfnod hwn o newid mewn addysg. Mae adroddiadau blaenorol yn cynnwys: Gwella addysgu (Estyn, 2018b), Arloesi’r cwricwlwm mewn ysgolion cynradd (Estyn, 2018a), Paratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (Estyn, 2018c), Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru – astudiaethau achos a chameos gan ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig (Estyn 2020b), Datblygu arweinyddiaeth – astudiaethau achos o ddysgu proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth ysgolion (Estyn, 2020a).

Mae’r adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o ymweliadau â detholiad o ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig ledled Cymru, gan gynnwys y rhai sy’n cyflwyno addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf. Mae’n cynnwys tystiolaeth o ysgolion a weithiodd gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu’r Cwricwlwm i Gymru fel ysgolion arloesi, gwella ansawdd neu ysgolion braenaru a thystiolaeth o ysgolion partner (nad ydynt yn ysgolion arloesi). Hefyd, mae’n defnyddio gwybodaeth a gafwyd o’n hymweliadau ymgysylltu ac o arolygiadau. Gellir gweld mwy o fanylion am sail y dystiolaeth yn Atodiad 1.

## Cefndir

Yn 2013, gwahoddwyd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o ansawdd y ddarpariaeth o fewn ei hysgolion fel rhan o’i hagenda diwygio addysg. O ganlyniad, cafwyd yr adroddiad ‘Improving Schools in Wales: an OECD Perspective 2014’ (OECD, 2014). Mae’r adroddiad hwn yn disgrifio symud oddi wrth asesu ffurfiannol yng Nghymru, fel y pwysleisiwyd gan y cwricwlwm cenedlaethol yn 2008, tuag at ymagweddau mwy crynodol, gyda ffocws ar atebolrwydd. Nododd nad oedd siglo’r pendil tuag at ymagweddau crynodol, lle mae llawer yn y fantol o ganlyniad i’r ymagweddau ffurfiannol cynharach hyn, yn ymddangos *‘ei fod yn cefnogi gwella’r system ysgolion yn ddigonol’* (OECD, 2014, tud.95). Hefyd, yn sgil arolygiadau ysgolion a gynhaliwyd, amlygwyd gwendid cymharol arfer effeithiol ledled Cymru, gan nodi bod asesu ar gyfer dysgu ddim wedi cael ei ddatblygu’n ddigonol o hyd mewn llawer o ysgolion, a dyma oedd yr argymhelliad mwyaf cyffredin ar gyfer gwella mewn adroddiadau arolygu ysgolion (Estyn, 2014).

Mae adroddiad OECD yn nodi’n glir ganlyniadau andwyol gweld asesu yn bennaf fel ffordd o sicrhau atebolrwydd. Mae’n nodi, er enghraifft ‘bod y cwricwlwm yn culhau wrth iddynt ganolbwyntio ar fedrau sy’n cael eu profi’ (OECD, 2014, tud.95). Hefyd, mae’r OECD yn cyfeirio at lenyddiaeth ryngwladol sy’n cysylltu’r diffyg asesu ffurfiannol â’i weithredu aneffeithiol. Mae hyn yn cynnwys ymchwil sy’n nodi nifer o rwystrau rhag cynnydd yn y maes hwn. Mae’n nodi bod datblygiad proffesiynol sy’n rhoi cyfarwyddyd i athrawon yn hytrach nag ymgysylltu â nhw i fyfyrio ar eu harfer eu hunain yn anghyson ag egwyddorion asesu ffurfiannol. Hefyd, mae’n amlygu ymchwil sy’n awgrymu bod angen gwella dealltwriaeth athrawon o’r hyn y mae adborth effeithiol yn ei olygu, a sut i gynnwys myfyrwyr yn eu dysgu eu hunain (Swaffield, 2008; Wiliam, 2010).

Ar ôl cyhoeddi adroddiad OECD, gofynnodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau i’r Athro Graham Donaldson gynnal adolygiad o drefniadau’r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru o’r cyfnod sylfaen i gyfnod allweddol 4. Pwysleisiodd yr adroddiad dilynol, ‘Dyfodol Llwyddiannus – Adolygiad Annibynnol o’r Cwricwlwm a’r Trefniadau Asesu yng Nghymru’ (Donaldson, 2015) fod angen ‘alinio asesu â dibenion dysgu’ ac ‘asesu beth sy’n bwysig’ (Donaldson, 2015, tud.74). Roedd argymhelliad 37 yn hanfodol i’r ymagwedd hon, sef ‘dylai’r trefniadau ar gyfer asesu roi blaenoriaeth i’w rôl ffurfiannol mewn addysgu a dysgu’ (Donaldson, 2015, tud.77)

> ‘Dylai asesu ffurfiannol fod yn rhan annatod a naturiol o’r broses addysgu ac nid yn elfen ychwanegol’ ….Mae nodweddion asesu ffurfiannol effeithiol yn cynnwys: Cynllunio’n effeithiol; cael dibenion clir; deall y ffactorau sy’n dylanwadu ar ddysgu; gwneud defnydd hyblyg o wahanol dechnegau; gweld asesu fel rhan barhaus ac adeiladol o arfer yn yr ystafell ddosbarth; rhannu meini prawf asesu; nodi anawsterau mewn dysgu yn gynnar; rhoi adborth a chymorth effeithiol ac amserol i fyfyrwyr sy’n canolbwyntio ar wella dysgu; a hyrwyddo hunanasesu ac asesu cyfoedion.’
>
> Dyfodol Llwyddiannus (Donaldson, 2015, tud.76)

Wrth i ysgolion ddechrau ymgymryd â’r dasg o ddatblygu cwricwlwm wedi’i yrru gan ddiben, roedd datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o arferion asesu ffurfiannol, a’u harbenigedd o ran eu rhoi ar waith, yn anghyson. Yn 2020, nododd ein hadroddiad blynyddol fod defnyddio technegau asesu i ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu yn parhau i fod yn gyfyngedig, ac yn y sector uwchradd, mae ymagweddau fel asesu cyfoedion a hunanasesu yn aml yn aneffeithiol. Hefyd, mewn lleiafrif o ysgolion, mae athrawon yn cymhwyso technegau asesu ar gyfer dysgu heb ‘fyfyrio ar ansawdd y ymagweddau na’r effaith a gânt ar gynnydd disgyblion’ (Estyn, 2021b, tud.29).

Parhaodd ysgolion ledled Cymru i fynd i’r afael â’r canfyddiadau hyn a dechrau gwella eu hymagweddau. Fodd bynnag, nid oedd arweinwyr bob amser yn gallu mynegi eu gweledigaeth ar gyfer asesu yn glir na nodi ei heffaith ar addysgu a dysgu. Mewn lleiafrif o achosion, teimlai arweinwyr ysgolion ‘nad oes digon o ffocws wedi bod gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar brosesau asesu a dilyniant mewn dysgu’ (Estyn, 2022a, tud.72).

Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i gefnogi trefniadau asesu a helpu ysgolion i ddatblygu dealltwriaeth gliriach o ddibenion asesu. Mae’r canllawiau

hyn yn datgan yn glir na ddylid defnyddio asesu ar gyfer atebolrwydd allanol, ond yn hytrach, *‘dylai’r wybodaeth a gesglir am gynnydd dysgwyr fod yn gymesur a dylai’r wybodaeth ond gael ei defnyddio yn yr ysgol i gefnogi cynnydd y dysgwyr a llywio’r addysgu yn uniongyrchol.’* (Llywodraeth Cymru, 2022b, tud.1)

Mae’r adnoddau hyn yn parhau i esblygu, gan gynnwys cyhoeddi deunyddiau yn ddiweddar a gweithdai i ysgolion eu defnyddio sydd â’r nod o *‘ddatblygu capasiti a sgiliau ymarferwyr yn gysylltiedig ag asesu… [a] chreu dealltwriaeth ddyfnach o’r trefniadau asesu a ddatblygwyd o fewn ‘Canllawiau’r Cwricwlwm i Gymru’* (Llywodraeth Cymru, 2022a, tud.5). Mae’r adnoddau hyn yn pwysleisio rôl asesu fel *‘wynebu ymlaen’* i lywio cynnydd disgyblion yn y dyfodol yn hytrach na chanolbwyntio’n ormodol ar gofnodi barnau am ddysgu blaenorol yn erbyn safonau allanol.

I gydnabod y symudiad cenedlaethol tuag at ddatblygu asesu ffurfiannol mwy effeithiol mewn ysgolion, cawsom ni (Estyn) wared ar unrhyw wahaniad rhwng asesu ac addysgu yn ein harweiniad diweddaraf, trwy eu huno mewn un adran o fewn y fframwaith arolygu (Addysgu ac Asesu 3.2). Mae arolygwyr yn gwerthuso pa mor dda y mae ysgolion yn defnyddio asesu i gynllunio ar gyfer dysgu ac addasu ymagweddau at addysgu. Rydym yn ystyried pa mor dda y mae ysgolion yn darparu cyfleoedd pwrpasol a phriodol i ddisgyblion gymryd rhan mewn asesu eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion. Rydym wedi cyhoeddi mwy o arweiniad atodol (Estyn, 2021a), sydd â ffocws cryf ar arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth.

Mae’r adroddiad thematig hwn yn edrych ar sut mae ysgolion yn gweithio i ddatblygu asesu sy’n broses barhaus yn union yr un fath ag addysgu a dysgu, ac yn rhan hanfodol a naturiol o’r broses addysgu, ac nid yn ‘elfen ychwanegol’ (Donaldson, 2015, tud.76). Mae’n nodi arfer effeithiol mewn asesu mewn ysgolion ledled Cymru. Mae’n rhoi enghreifftiau o ymagweddau sy’n cael effaith gadarnhaol ar addysgu ac ar ddysgu disgyblion, ac yn nodi rhai o’r camdybiaethau a’r rhwystrau posibl sy’n rhwystro cynnydd ac yn bodoli o hyd mewn ysgolion. Mae’n darparu argymhellion ar gyfer ysgolion a chyrff allanol i helpu mynd i’r afael â’r meysydd hyn i’w gwella.

Mae’r adroddiad hwn wedi’i drefnu’n dri phrif faes, bob un ohonynt yn archwilio agwedd benodol ar asesu ac yn rhoi enghreifftiau o arfer dda.

Mae’r bennod gyntaf, **‘Cynllunio ar gyfer asesu’** yn canolbwyntio ar rai o’r ffyrdd y mae ysgolion yn cynllunio ymagweddau ac arferion effeithiol ar gyfer asesu ffurfiannol wrth ddylunio eu cwricwlwm.

Mae’r ail bennod, **‘Asesu i gefnogi addysgu ymatebol’** yn ystyried rhai o’r ffyrdd y mae ysgolion yn defnyddio asesu i fireinio a gwella addysgu.

Mae’r drydedd bennod, **‘Datblygu ymagweddau cydweithredol at asesu yn yr ystafell ddosbarth’** yn disgrifio’r modd y mae ysgolion effeithiol yn creu diwylliant dysgu yn llwyddiannus rhwng disgyblion ac athrawon. Mae’n nodi’r modd y mae ysgolion da yn ennyn diddordeb disgyblion yn llawn yn y broses asesu, ac yn datblygu eu heffeithiolrwydd mewn gwerthuso a gwella eu dysgu eu hunain a dysgu disgyblion eraill.

## Prif ganfyddiadau

### Mae ysgolion sy'n cynllunio ymagweddau effeithiol at asesu:

- Yn datblygu polisïau ac arferion ar gyfer asesu sy'n blaenoriaethu eu rôl ffurfiannol mewn addysgu a dysgu, yn alinio â'r egwyddorion asesu yn y Cwricwlwm i Gymru, ac yn defnyddio cyd-destun yr ysgol ac ymchwil addysgol berthnasol
- Yn sicrhau bod staff yn meddu ar ddealltwriaeth glir o asesu ffurfiannol ac yn gallu dewis yn ofalus o blith ystod o strategaethau sy'n cefnogi orau anghenion y disgyblion yn eu dosbarth
- Yn meddu ar ddealltwriaeth glir o gynnydd trwy eu cwricwlwm ysgol, yn cydweithio'n rheolaidd ag ysgolion a lleoliadau eraill i ddyfnhau eu dealltwriaeth o ddilyniant ar draws ysgolion a sectorau, ac yn rhannu ymagweddau effeithiol at addysgu ac asesu
- Yn datblygu ac yn cynnal ymagweddau cydlynus at ddysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar addysgeg effeithiol mewn addysgu ac asesu, ac yn annog diwylliant myfyriol ar draws yr ysgol

**Yn ymarferol:**

| | |
|---|---|
| Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant | *Cyflwyno asesu parhaus yn y cwricwlwm* |
| Ysgol y Creuddyn | *Ymagwedd integredig at asesu ac addysgeg* |
| Ysgol Gynradd Woodlands | *Cynllunio ar gyfer dilyniant ac asesu* |
| Ysgol Pencoch | *Fframweithiau dilyniant ADY ac asesu cyfannol* |

### Mae ysgolion sy'n defnyddio asesu yn effeithiol i fireinio a gwella addysgu:

- Yn cyflwyno cyfleoedd rheolaidd i asesu dysgu disgyblion gan ddefnyddio ystod o ymagweddau ffurfiannol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro a mireinio'r camau nesaf mewn addysgu
- Yn sicrhau bod athrawon yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r dysgu bwriadiedig ar gyfer sesiynau ac yn defnyddio holi yn fedrus i asesu dealltwriaeth disgyblion ac addasu cyfeiriad y wers os bydd angen

- Yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol trwy sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn mewn asesu dysgu disgyblion ac yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod cynnydd disgyblion ag athrawon dosbarth

- Yn meddu ar brosesau sefydledig i sicrhau bod staff yn gwerthuso llwyddiant strategaethau asesu yn barhaus trwy fyfyrio ar ba mor dda y mae ymagweddau yn effeithio ar ansawdd yr addysgu a dysgu disgyblion, a sut y gellir eu mireinio ymhellach

**Yn ymarferol:**

| | |
|---|---|
| Ysgol Gynradd Ynysowen | *Cofnodi'r Dysgu* |
| Ysgol Gynradd Carreghofa | *Grwpiau Ffocws Disgyblion* |
| Ysgol Gynradd Osbaston | *Cynllunio ymatebol* |
| Ysgol Gyfun Penyrheol | *Adborth dosbarth cyfan* |
| Ysgol Tregarth | *Diwylliant o ddysgu a hunanwella* |

### Mae ysgolion sy'n cynnwys disgyblion yn llawn yn y broses asesu:

- Yn sicrhau bod disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o sut beth yw llwyddiant, a sut y gellir ei gyflawni

- Yn sicrhau bod meini prawf llwyddiant yn benodol i'r dysgu bwriadedig ac yn darparu ffocws ar gyfer arferion asesu ffurfiannol, fel asesu cyfoedion a hunanasesu

- Yn sicrhau bod athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau adborth yn effeithiol, i helpu disgyblion i ddeall beth maent wedi'i wneud yn dda, beth mae angen iddynt ei wneud nesaf, a sut i'w wneud

- Yn sicrhau bod ymagweddau at asesu cyfoedion yn cael eu cynllunio a'u modelu'n ofalus gan athrawon ac yn cynnwys disgyblion i ddeall effaith eu hadborth ar eu cyfoedion

- Yn datblygu diwylliant cryf o gydweithio yn yr ystafell ddosbarth, lle mae athrawon yn ymgysylltu â disgyblion i archwilio effeithiolrwydd meini prawf llwyddiant yn feirniadol i gefnogi eu hunanasesu ac asesu cyfoedion i sicrhau eu bod yn ddigon buddiol

- Yn cydweithio'n rheolaidd â rhieni i rannu tystiolaeth o gynnydd eu plant ac yn creu cyfleoedd difyr i ymestyn eu dysgu gartref

**Yn ymarferol:**

| | |
|---|---|
| Ysgol Twm o'r Nant | *Datblygu annibyniaeth disgyblion* |
| Ysgol Gynradd Llandyfái | *Diwylliant o fyfyrio cydweithredol* |
| Ysgol Gymunedol Cwm Tawe | *Eistedd yn y gadair goch* |
| Ysgol Gyfun Pontarddulais | *Strategaethau adborth* |
| Ysgol Gynradd Waunceirch | *Cefnogi medrau asesu cyfoedion y disgyblion* |
| Ysgol Dolbadarn | *Cefnogi cydweithio gartref* |

## Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Flaenoriaethu ymagweddau at asesu sy'n dyfnhau dealltwriaeth athrawon o ddysgu disgyblion a'u cynnydd

A2 Datblygu dealltwriaeth athrawon ac arweinwyr o arferion asesu ffurfiannol effeithiol yn yr ystafell ddosbarth

A3 Sicrhau bod athrawon yn defnyddio gwybodaeth am asesu i addasu eu haddysgu i gefnogi a herio'r holl ddisgyblion yn briodol

A4 Ymgorffori cyfleoedd systematig i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn gwerthuso a gwella eu dysgu eu hunain a dysgu eu cyfoedion

**Dylai Llywodraeth Cymru, consortia ac awdurdodau lleol:**

A5 Ddatblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol adeiladol i ysgolion wella'u dealltwriaeth a'u defnydd o arferion asesu ffurfiannol


A6 Hwyluso a chefnogi cydweithio ar draws ysgolion i ddatblygu dealltwriaeth arweinwyr ac athrawon o ddilyniant, a rhannu arfer effeithiol mewn asesu ffurfiannol

## Cynllunio ar gyfer asesu

Er bod pandemig COVID-19 wedi cael effaith ar y momentwm tuag at ddiwygio'r cwricwlwm, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelom ni â nhw fel rhan o'r adolygiad thematig hwn wedi defnyddio egwyddorion cwricwlwm wedi'i yrru gan ddiben i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer eu haddysgu a'u cwricwlwm. Yn aml, mae hyn wedi cynnwys arweinwyr a staff yn cydweithio â chymuned eu hysgol i ddylunio cwricwlwm sy'n adlewyrchu eu cyd-destun lleol ac anghenion eu disgyblion.

> 'Pan mae'r cwricwlwm a dulliau asesu wedi'u halinio, mae canlyniadau'r cyfarwyddyd yn well o lawer.'
>
> Biggs, (1996), tud.350

Mae ysgolion sydd â threfniadau effeithiol wedi rhoi ystyriaeth ofalus i rôl asesu o fewn eu cwricwlwm. Maent wedi datblygu polisïau ac arferion clir a defnyddiol sy'n alinio ag egwyddorion a diben asesu fel y'u nodwyd yng nghanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru (Ffig. 1, Llywodraeth Cymru, 2022b). Mae'r ysgolion hyn yn rhoi blaenoriaeth i rôl ffurfiannol asesu yn yr addysgu a'r dysgu. Yn yr ysgolion hyn, ceir dealltwriaeth glir o ddibenion asesu, sut mae'n cefnogi dysgu a'i rôl mewn mireinio addysgu.




Ffigur 1. Egwyddorion allweddol a diben asesu. Wedi'i adalw 18 Awst 2022, o https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/trefniadau-asesu/. Hawlfraint Llywodraeth Cymru 2022

Mewn llawer o achosion, mae ysgolion effeithiol yn datblygu polisïau ac arferion ar gyfer asesu ar y cyd ag athrawon, gan ddefnyddio eu profiad ymarferol. Maent yn ystyried cyd-destun eu hysgol yn ofalus ac yn nodi ymchwil addysgol ddefnyddiol. Yn yr ysgolion hyn, mae ymarferwyr yn deall dulliau asesu ffurfiannol yn dda, ac yn dewis yn ofalus o blith ystod o strategaethau sy'n cefnogi orau anghenion y disgyblion yn eu dosbarth. Yn aml, mae polisi yn yr ysgolion hyn yn cynorthwyo staff trwy ddangos ystod o ddulliau buddiol yn hytrach na chyfyngu athrawon i ddull 'un maint yn gweddu i bawb'. Mewn ychydig o achosion cryf, mae ysgolion yn defnyddio adborth disgyblion yn gynhyrchiol fel rhan o'u prosesau hunanwerthuso wrth werthuso effaith polisi ac arfer asesu ar eu dysgu.

'Mae polisïau'n gosod y cyfeiriad ar gyfer sut caiff adborth ei gyflwyno mewn ysgolion, ac mae angen cydbwysedd gofalus rhyngddynt. Dylent nodi'r angen am egwyddorion wedi'u llywio gan dystiolaeth i fod wrth wraidd arfer, a dangos hyn, ond dylid gadael y dulliau a'r amseru i grebwyll proffesiynol athro.'

Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF; 2021, tud.4)

Pan fydd ysgolion wedi meddwl yn ofalus am ymagweddau gwerth chweil at asesu, maent yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o'u rôl yn y broses asesu. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn aml yn cynllunio'n ystyriol i ddatblygu cymhwysedd disgyblion mewn monitro a gwerthuso eu dysgu eu hunain a dysgu disgyblion eraill, er enghraifft wrth ddefnyddio a rhoi adborth ystyriol sy'n symud dysgu ymlaen.

Pan fydd arfer yn fwyaf llwyddiannus, mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol i wella medrau athrawon mewn deall a defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu yn ffurfiannol. Lle gwneir hyn yn arbennig o dda, rhoddir pwyslais cryf ar addysgeg gref ac ymagwedd drylwyr a myfyriol o ddatblygu arfer ffurfiannol ar draws yr ysgol. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn buddsoddi adnoddau sylweddol mewn datblygu dealltwriaeth athrawon o arfer effeithiol mewn asesu, ac yn darparu gofod ac amser iddynt dreialu dulliau a myfyrio ar eu profiadau.

Mae lleiafrif o arweinwyr ysgolion yn nodi ei bod yn aml yn anodd dod o hyd i gymorth a dysgu proffesiynol ar gyfer asesu. O ganlyniad, ni chaiff dysgu proffesiynol ei ddatblygu'n ddigon gofalus dros gyfnod bob amser i helpu athrawon i adeiladu ar eu medrau a'u profiad presennol, sy'n golygu bod lleiafrif ohonynt yn cymhwyso technegau asesu ffurfiannol â dealltwriaeth annigonol fel mater o drefn.

Mae llawer o ysgolion sy'n meddu ar ddealltwriaeth glir o'r flaenoriaeth ar gyfer asesu i gefnogi dysgu ac addysgu wedi lleihau eu dibyniaeth ar brofi crynodol i lunio barnau am ddysgu blaenorol. Mae arweinwyr yn cynorthwyo staff i symud oddi wrth brosesau sy'n cael effaith gyfyngedig ar gynnydd disgyblion. Maent yn helpu staff i ddeall a chynllunio ar gyfer ystod o ddulliau asesu, a meddwl yn ofalus am sut mae pob dull yn cefnogi addysgu trwy ddarparu dealltwriaeth well o ddysgu disgyblion.

**Cynnwys asesu parhaus yn y cwricwlwm** **Prif ganfyddiadau**

Mae staff yn Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant yng Nghasnewydd wedi datblygu ymagweddau at asesu i sicrhau ei fod yn rhan annatod o'r broses addysgu a dysgu. Wrth ystyried dilyniant ac asesu, mae arweinwyr pwnc yn nodi adegau allweddol neu adegau 'bachu' o fewn y dysgu lle mae'n rhaid i athrawon wirio dealltwriaeth a chymhwysedd disgyblion i symud ymlaen ymhellach. Caiff dealltwriaeth disgyblion ei hasesu mewn amrywiaeth o ffyrdd gwahanol sy'n briodol i'r dysgu. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon i bennu addysgu pellach y mae angen iddo ddigwydd i gywiro camdybiaethau neu ddatblygu meistrolaeth.

Mae ffocws yr ymagwedd asesu hon ar ddysgu, yn hytrach nag ar asesiad crynodol ar ddiwedd uned. Mae asesu yn barhaus a chynyddrannol, gan alluogi athrawon i roi adborth â ffocws sy'n galluogi disgyblion i wella. Mae'r adborth ffurfiannol hwn yn digwydd tra bydd y dysgu'n digwydd, yn hytrach nag ar ddiwedd uned waith, fel ei fod yn cael effaith fuddiol ar gynnydd disgyblion.

Mae datblygiadau mwy diweddar wedi cynnwys rhaglen gydlynus o ddysgu proffesiynol yn ymwneud â dylunio'r cwricwlwm, addysgeg, ac asesu, gydag amser cynllunio cydweithredol wedi'i ychwanegu i dimau meysydd dysgu a phrofiad a phynciau fyfyrio ar ymagweddau effeithiol gyda'i gilydd.

I gefnogi'r ymagwedd hon, mae system newydd hefyd yn cael ei datblygu sy'n galluogi arweinwyr ac athrawon i olrhain a monitro cynnydd disgyblion. Mae hyn yn dileu 'ffenestri asesu', pan fydd rhaid i athrawon gyflwyno data yn ganolog, ac yn hytrach yn rhoi hyblygrwydd i adrannau ac athrawon benderfynu pryd yw'r adegau mwyaf priodol i gynnal asesiadau a chofnodi cynnydd ar sail yr 'adegau bachu' hynny yn eu cynlluniau dysgu.

Mae'r ysgol wedi creu cyfleoedd rheolaidd i adolygu effaith yr ymagwedd hon a sicrhau bod rhieni, disgyblion ac athrawon yn deall diben a manteision y system asesu sy'n fwy ffurfiannol.

Mae ysgolion effeithiol yn defnyddio ymagweddau mwy ffurfiol at asesu yn ddetholus ac yn bwrpasol. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn deall cyfyngiadau ymagwedd rhestr dicio at olrhain nad yw bob amser yn darparu gwybodaeth sy'n eu helpu i ddeall anghenion disgyblion neu lywio addysgu. Maent yn sicrhau bod asesiadau mwy ffurfiol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer disgyblion neu athrawon y gellir gweithredu arni'n ddiweddarach. Mewn ysgolion sydd ag arfer effeithiol, mae arweinwyr yn defnyddio'r asesiadau personoledig cenedlaethol yn ystyriol i ddeall cynnydd disgyblion mewn dysgu, ac yn addasu'r addysgu i gefnogi eu camau nesaf.

Mewn ysgolion gwannach, mae arweinwyr yn parhau i weld asesu yn bennaf fel system ar gyfer darparu atebolrwydd allanol. Mewn ychydig iawn o achosion, mae ysgolion yn parhau i gynllunio tasgau asesu wedi'u cynllunio o amgylch disgrifwyr

lefel neu gamau dilyniant sy'n gweddu orau, i olrhain cynnydd disgyblion. Yn yr achosion hyn, nid yw arferion asesu bob amser yn helpu athrawon i ddeall dysgu disgyblion ac addasu eu harfer yn unol â hynny.

> 'Nid ydynt [disgrifiadau o ddysgu] yn gyfres o feini prawf i asesu'n uniongyrchol yn eu herbyn, ac ni ellir ychwaith eu hasesu gyda thasgau asesu unigol, yn annibynnol ar weithgareddau dysgu ac addysgu.'
>
> Llywodraeth Cymru (2022b), tud.1

Mewn ychydig o achosion, mae arweinwyr yn parhau i fynegi pryderon y bydd 'rhywbeth yn dod rownd y gornel' o ran asesu a'i rôl mewn atebolrwydd. Yn yr achosion hyn, mae arweinwyr weithiau'n amharod i leihau eu casgliad o ddata asesu crynodol sy'n cael ychydig iawn o effaith ar addysgu a dysgu. At hynny, mae arweinwyr mewn ysgolion uwchradd weithiau'n nodi pryderon ynglŷn â diffyg eglurder am fanylebau arholi yn y dyfodol wrth ddatblygu eu cwricwla ac ymagweddau ffurfiannol cysylltiedig at asesu. Mae'r pryderon hyn yn rhwystro cynnydd, ac mewn ychydig iawn o achosion, dywed arweinwyr fod disgwyliad gan awdurdodau lleol o hyd i ddarparu data ar asesu, gan gynnwys data profion ffurfiol at ddiben atebolrwydd.

Pan fydd arferion yn fwyaf effeithiol, mae ysgolion wedi seilio eu hymagweddau at asesu ar ddealltwriaeth glir o gynnydd mewn dysgu. Maent wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r camau dilyniant a'r egwyddorion dilyniant ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh) a'r disgyblaethau unigol oddi mewn iddynt, os yw'n briodol. O ganlyniad, mae staff yn yr ysgolion hyn yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r daith y maent yn dymuno i'w dysgwyr ymgymryd â hi.

Mewn ysgolion lle mae staff yn datblygu dealltwriaeth glir o gynnydd, maent yn cynllunio ar gyfer cyfleoedd asesu rheolaidd sy'n eu galluogi i ailedrych ar eu haddysgu, neu'i newid os oes angen. Caiff y cyfleoedd hyn eu hintegreiddio mewn addysgu bob dydd, yn ogystal â thros gyfnod. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a chreu strategaethau asesu sy'n briodol i gam datblygu disgyblion ac sy'n eu helpu i ddeall pa mor dda y mae disgyblion yn gwneud cynnydd. Yn yr ysgolion hyn, mae arferion asesu yn sicrhau bod athrawon yn gallu bod yn ymatebol ac yn hyblyg i anghenion disgyblion, ac yn eu helpu i addasu eu cwricwlwm a mireinio'r addysgu.

**Ymagwedd integredig at gynllunio, asesu ac addysgeg** **Prif ganfyddiadau**

Mae staff yn Ysgol y Creuddyn yng Nghonwy wedi seilio eu cwricwlwm mathemateg a rhifedd ar ddehongliad yr ysgol o 'feistrolaeth', lle mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth fanwl, hirdymor a chadarn o gysyniadau mewn mathemateg a rhifedd. Maent yn trefnu dysgu yn becynnau gwaith lluosog bob blwyddyn, ac o fewn pob un o'r rhain, mae disgyblion yn astudio cyfres o destunau dros sawl wythnos. Mae staff wedi meddwl yn ofalus am ddilyniant ac wedi trefnu testunau i sicrhau bod medrau mathemategol yn cael eu meithrin yn raddol o fewn testunau, ac ar eu traws. Er enghraifft, maent yn sicrhau eu bod yn addysgu disgyblion am rifau sgwâr, a bod disgyblion yn gallu eu defnyddio'n hyderus cyn symud ymlaen i destunau, fel theorem Pythagoras.

Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o dasgau asesu parhaus i fonitro cynnydd disgyblion ac addasu cymorth ac addysgu yn ôl yr angen. Er enghraifft, maent yn defnyddio cwisiau amlddewis, tasgau testun â llai yn y fantol, holi diagnostig, a hunanadolygu gan ddisgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio testunau'n ofalus, i sicrhau yr eir yn ôl i edrych ar fedrau mathemategol dros gyfnod i atgyfnerthu ac ymgorffori dealltwriaeth disgyblion i adlewyrchu theori 'y gromlin anghofio'.

Mae cromlin anghofio Ebbinghaus yn theori a ddatblygwyd yn gyntaf gan Hermann Ebbinghaus ym 1885. Mae'n disgrifio'r modd y mae gwybodaeth a ddysgwyd yn gwanhau dros gyfnod pan na wneir unrhyw ymdrech i'w chadw. Mae ei waith, a gefnogir yn dda gan ymchwil ddilynol, yn dangos bod ailadrodd dysgu â bylchau priodol yn helpu lleihau faint o wybodaeth sy'n cael ei hanghofio gan y dysgwr.

Ebbinghaus, H. (1964) Memory: A contribution to experimental psychology

Mae ysgolion effeithiol yn cynllunio cyfleoedd i staff gydweithio ar draws grwpiau blwyddyn wrth edrych ar asesu a chynnydd o fewn y cwricwlwm. Yn aml, maent yn gweithio gyda'i gilydd i greu blociau dysgu sy'n arwain at dasg gyfoethog neu 'brif ddigwyddiad'. Wedyn, mae staff yn gweithio tuag yn ôl o'r diben hwn i gynllunio'r dysgu ar wahân yn ofalus ar gyfer pob maes o'r cwricwlwm i gefnogi cynnydd disgyblion tuag at y nod cyffredinol. Maent yn cynllunio ar gyfer cyfleoedd asesu rheolaidd i nodi sut mae disgyblion yn gwneud cynnydd tuag at fwriadau dysgu ac yn gallu addasu cyfeiriad y teithio yn barhaus. Yn aml, mae'r ysgolion hyn yn cynllunio cyfleoedd i ddisgyblion gael eu cynnwys ym mhroses dylunio'r cwricwlwm, sy'n eu helpu i ddeall y camau nesaf sydd eu hangen ar gyfer eu dysgu.

**Cynllunio ar gyfer dilyniant ac asesu** **Prif ganfyddiadau**

Gosododd staff yn Ysgol Gynradd Woodlands yn Nhorfaen, 'Dasgau Ymholi' i'w cwblhau ar ddiwedd bloc o waith. Mae'r tasgau hyn yn herio disgyblion i gymhwyso'r dysgu sydd wedi'i feithrin dros y tymor mewn cyd-destunau difyr ac ystyrlon sy'n gofyn iddynt gyfuno medrau ar draws meysydd dysgu a phrofiad.

> "Rwy'n gallu gweld sut mae fy nysgu yn cydweddu â'm prosiect ymholi. Hwn yw fy ngwaith gorau, ac rwy'n gallu gwneud hyn os ydw i'n ymdrechu. Yr holl waith yn fy llyfrau eraill ydy ble mae fy nysgu'n digwydd a ble rwy'n ymarfer i gyrraedd y man hwn."
> (Disgybl Blwyddyn 5)

Mae athrawon yn cynllunio gyda'i gilydd i gynllunio profiadau dysgu sy'n datblygu gwybodaeth a medrau disgyblion dros gyfnod. Ochr yn ochr â'r cynllunio cwricwlaidd hwn, maent yn ymgorffori cyfleoedd rheolaidd ar gyfer asesu i wirio cynnydd. Mae hyn yn eu galluogi i addasu cynnwys y cwricwlwm yn ôl yr angen i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau allweddol yn briodol. O ganlyniad i'r 'cynllunio tuag yn ôl' hwn, mae athrawon yn yr ysgol yn datblygu dealltwriaeth glir o gynnydd ac yn defnyddio asesu yn ffurfiannol i fonitro cynnydd disgyblion ac addasu eu darpariaeth yn briodol.

**Fframweithiau dilyniant ADY ac asesu cyfannol** **Prif ganfyddiadau**

Mae staff yn Ysgol Arbennig Pencoch yn Sir y Fflint wedi ail-lunio asesu yn 'naratif gyfannol y plentyn.' Maent wedi cyfuno ystod o fframweithiau presennol, fel 'llwybrau ar gyfer dysgu', a'r fframweithiau llythrennedd a rhifedd cenedlaethol i gefnogi eu cynllunio ar gyfer dysgu ar draws y maes dysgu a phrofiad. Maent yn defnyddio'r fframweithiau hyn yn hyblyg, gan ddewis yr ymagwedd fwyaf effeithiol at ddysgu ar gyfer disgyblion unigol. Os oes gan ddisgyblion unigol anawsterau dysgu dwys a lluosog neu anghenion synhwyraidd, mae staff wedi datblygu eu fframwaith eu hunain i'w cynorthwyo ymhellach i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion.

Mae staff yn defnyddio'r dilyniant a amlinellir yn y fframweithiau hyn i gefnogi eu hasesu a chanolbwyntio eu harsylwadau o ddisgyblion, y maent yn eu cofnodi'n ddigidol. Mae'r gwerthusiadau hyn yn llywio cyfarfodydd rheolaidd rhwng staff lle penderfynir ar y camau nesaf mewn dysgu ac addysgu. Mae rhannu'r cynllunio o ran addysgu ac asesu gyda chynorthwywyr addysgu yn caniatáu ar gyfer maes ehangach o asesiadau a ffocws cliriach ar sicrhau bod unigolion yn gwneud cynnydd ar gyflymdra priodol.

O ganlyniad, mae'r ysgol wedi symleiddio ymagweddau blaenorol at asesu, wedi'i gysylltu'n agosach â chynllunio eu cwricwlwm ac yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn ffurfiannol, yn hytrach nag fel offeryn i olrhain disgyblion yn unig. Mae hyn wedi gwella dealltwriaeth yr holl ymarferwyr o'r dysgu bwriadedig ar gyfer pob gweithgaredd.

Mae ysgolion effeithiol yn cynllunio’n ystyriol i gydweithio â lleoliadau eraill i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddilyniant ac at ymagweddau cynhyrchiol at asesu. Yn yr ysgolion hyn, ceir cyfleoedd defnyddiol i staff rannu arfer dda mewn asesu a chryfhau addysgu ar draws y continwwm dysgu. Pan fydd hyn yn cael yr effaith fwyaf, caiff ei gefnogi’n dda gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol trwy gynllunio defnyddiol fesul clwstwr. Fodd bynnag, nid yw’r cynlluniau hyn bob amser yn sicrhau bod ysgolion yn adeiladu’n effeithiol ar ddysgu blaenorol disgyblion ar adegau pontio pwysig (Estyn, 2022b). Yn rhy aml, mae trefniadau pontio wedi’u cyfyngu i rannu lefelau cyrhaeddiad disgyblion. Yn yr achosion hyn, collir cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddilyniant ac ymagweddau effeithiol at asesu ac addysgu.

Pan fydd ysgolion yn gweithio gyda’i gilydd mewn grwpiau neu ranbarthau, mae ansawdd a chysondeb dysgu proffesiynol yn gwella. Er enghraifft, mae’r rhan fwyaf o ysgolion yng nghonsortiwm GwE wedi bod yn gysylltiedig â menter ranbarthol i wella ansawdd a chysondeb arfer asesu ffurfiannol. Yn aml, mae’r ysgolion hyn yn teimlo eu bod wedi elwa ar ddull wedi’i lywio gan ymchwil ar gyfer dysgu proffesiynol, sy’n annog cydweithio a rhannu syniadau ar draws ysgolion (GwE, 2019).

## Defnyddio asesu i gefnogi addysgu ymatebol

Mae ysgolion â’r arfer fwyaf effeithiol yn defnyddio ystod o wybodaeth sy’n ‘deillio o asesu cynnydd dysgwyr’ (Llywodraeth Cymru, 2022b, tud.1) i lywio eu hymagweddau at addysgu a chynllunio’r cwricwlwm. Yn yr achosion gorau, maent yn cyfuno gwybodaeth barhaus a ffurfiannol, wedi’i chasglu o ddydd i ddydd yn yr ystafell ddosbarth gyda thystiolaeth ychwanegol a gesglir ar adegau penodol trwy gydol y flwyddyn academaidd.

> ‘Fy rôl i, fel athro, yw gwerthuso’r effaith rwy’n ei chael ar fy myfyrwyr’, a ‘gwybod yr effaith’, deall yr effaith hon, a gweithredu yn unol â’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth hon. Mae’n gofyn bod athrawon yn casglu tystiolaeth amddiffynadwy a dibynadwy o lawer o ffynonellau ac yn cynnal trafodaethau ar y cyd â chydweithwyr a myfyrwyr am y dystiolaeth hon, gan wneud effaith eu haddysgu yn weladwy iddyn nhw eu hunain a phobl eraill.’
>
> Hattie (2012, tud.19)

Mae’r ysgolion gorau yn meddwl yn ofalus am y wybodaeth y maent yn dymuno’i chasglu ar draws y flwyddyn ysgol. Os caiff y wybodaeth hon ei chasglu o ffynonellau mwy ffurfiol, gan gynnwys asesiadau personoledig cenedlaethol, mae staff yn defnyddio’r wybodaeth yn bwrpasol i nodi cryfderau a meysydd i’w datblygu yn eu haddysgu. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, mae staff yn

> ‘Ni ddylai athrawon gasglu tystiolaeth o gyflawniad myfyrwyr oni bai bod nhw’n gwybod beth i’w wneud â hi…. casglu data wedi’i yrru gan benderfyniadau, nid penderfyniadau wedi’u gyrru gan ddata’
>
> William a Leahy (2015, tud.83)

cydweithio ar draws adrannau neu sectorau i ddadansoddi’r wybodaeth hon a chymryd rhan mewn trafodaethau gonest a heriol, gan nodi ble y gellir gwella’u harfer. Mewn ysgolion gwannach, mae arweinwyr ac athrawon yn treulio cryn dipyn o amser o hyd yn casglu ac yn cofnodi data olrhain, ac nid ydynt bob amser yn meddwl yn ddigon gofalus am sut gellir defnyddio’r wybodaeth hon i wella arferion athrawon.

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae staff yn ystyried tystiolaeth o gynnydd academaidd ochr yn ochr â gwybodaeth am eu lles a’u hagweddau at ddysgu. Mae hyn yn darparu cefndir cyd-destunol defnyddiol ar gyfer athrawon wrth ystyried at ymagweddau amgen at addysgu sy’n helpu goresgyn rhwystrau rhag dysgu ac yn targedu tangyflawniad.

Os oes gan ysgolion brosesau sefydledig i sicrhau bod staff yn myfyrio’n rheolaidd ar effaith eu haddysgu ar ddysgu disgyblion, gall athrawon a staff cymorth ddefnyddio’r wybodaeth y maent wedi’i chasglu ar draws cyfres o wersi i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn dda. Yn aml, cesglir y wybodaeth hon fel rhan o’r broses addysgu, er enghraifft arsylwadau o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau mewn tasgau wedi’u dylunio’n ofalus, neu nodiadau wedi’u cymryd yn ‘nyddiaduron dyddiol’ athrawon sy’n cofnodi camdybiaethau a chryfderau disgyblion unigol.

**Cofnodi’r dysgu** **Prif ganfyddiadau**



Fel rhan o’u prosesau asesu ar gyfer dysgu parhaus, mae staff yn Ysgol Gynradd Ynysowen ym Merthyr Tudful yn myfyrio’n rheolaidd ar ystod o dystiolaeth a gasglwyd trwy gydol yr wythnos, er enghraifft o waith disgyblion, trafodaethau dosbarth ac asesu cyfoedion a hunanasesu gan ddisgyblion. Maent yn cydweithio mewn timau i nodi dealltwriaeth disgyblion o amcanion allweddol, pennu eu hanghenion dysgu yn y dyfodol ac yn addasu’r cynllunio pan fydd angen.

Fel rhan o’r broses hon, maent yn gwerthuso effaith yr addysgu ar ddysgu disgyblion yn ystod gweithgareddau penodol, y maent yn eu nodi ar eu cynllunio tymor byr. Caiff y rhain eu marcio ag ‘eicon camera’ i ddynodi ‘cofnodi’r dysgu’. Mae’r asesiadau’n cynnwys gwerthuso cynnydd tuag at nodau dysgu, camdybiaethau cyffredin ymhlith disgyblion, medrau y mae angen ailedrych arnynt a meysydd eraill y mae staff yn teimlo sy’n berthnasol. Y myfyrdodau hyn yw ffocws y trafodaethau gyda phob aelod o staff sydd wedi gweithio gyda’r plant trwy gydol yr wythnos honno, a gydag athrawon eraill sy’n gweithio mewn dosbarthiadau grwpiau blwyddyn cyfochrog.



Ar gynlluniau dilynol, mae athrawon yn defnyddio symbol camera llai i ddangos yr ymagweddau addysgu y maent wedi’u cynllunio i fynd i’r afael ag unrhyw anghenion dysgu a nodwyd yn ystod y trafodaethau gwerthusol.

Pan gaiff pryderon cyffredin eu nodi ar draws dosbarthiadau a sectorau, yn aml, caiff hyn effaith uniongyrchol ar gyfeiriad strategol yr ysgol, gan fwydo i mewn i’r cynllun datblygu ysgol a dysgu proffesiynol dilynol. Mae ‘cofnodi’r dysgu’ yn rhan bwysig o’r cylch asesu, hunanwerthuso a’r ymagwedd ysgol gyfan at ddysgu proffesiynol.

Pan gaiff staff cymorth eu defnyddio'n dda, maent yn cymryd rhan yn llawn yn y broses ddysgu ac yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod eu hasesiadau o gynnydd disgyblion gydag athrawon dosbarth. Yn aml, mae staff mewn ysgolion arbennig yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd dosbarth dyddiol ac wythnosol lle mae pob un o'r staff yn myfyrio gyda'i gilydd ar arsylwadau ffurfiannol o gynnydd disgyblion, ac wedyn yn teilwra eu cynllunio yn unol ag anghenion disgyblion unigol.

Mae ysgolion effeithiol yn datblygu rôl disgyblion mewn asesu ac yn darparu adborth i staff am effaith yr addysgu ar eu dysgu. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn gweithio'n rheolaidd gyda grwpiau o ddisgyblion i werthuso a thrafod eu dysgu.

**Grwpiau ffocws disgyblion** **Prif ganfyddiadau**

Mae staff yn Ysgol Gynradd Carreghofa ym Mhowys wedi symud oddi wrth brofion crynodol rheolaidd bob hanner tymor i fonitro cynnydd gan fod staff yn teimlo eu bod yn llafurus ac yn cael effaith gyfyngedig ar eu harfer. Yn hytrach, mae staff yn cynnal 'grwpiau ffocws disgyblion' yn eu hystafelloedd dosbarth, i alluogi iddynt asesu a datblygu dealltwriaeth ddyfnach o ddysgu disgyblion. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn digwydd ddwywaith yr wythnos. Mae staff a disgyblion yn edrych gyda'i gilydd ar ddeilliannau dysgu bwriadedig sesiynau, yn trafod gwaith disgyblion ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddangos eu dealltwriaeth a nodi meysydd lle mae angen mwy o gymorth arnynt.

Mae'r sesiynau hyn yn rhoi darlun llawer cliriach i athrawon o ddealltwriaeth disgyblion ar draws y dosbarth, ac effaith eu haddysgu. Defnyddiant y wybodaeth hon i addasu addysgu dilynol, er enghraifft i gynorthwyo dysgwyr sy'n cael trafferth, neu ymestyn y rhai sydd angen mwy o her.

Pan fydd ysgolion yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd i asesu dysgu disgyblion, er enghraifft trwy gwisiau â llai yn y fantol, mae'r ysgolion cryfaf yn defnyddio'r wybodaeth hon yn adeiladol i gefnogi'r addysgu a dysgu disgyblion. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn cydnabod y gall y cwisiau hyn gael effaith gadarnhaol ar ddyfnhau dysgu disgyblion (Roediger & Butler, 2011), ac yn defnyddio'r wybodaeth i fonitro cynnydd a mireinio'r camau nesaf mewn addysgu. Mewn ychydig iawn o achosion, mae athrawon yn cynllunio cwestiynau amlddewis yn fedrus i nodi'n glir pa mor dda yr oedd disgyblion yn deall uned ddysgu a nodi camdybiaethau cyffredin.

**Cynllunio ymatebol** **Prif ganfyddiadau**

Mae staff yn Ysgol Gynradd Osbaston yn Sir Fynwy wedi datblygu dull cynllunio tymor byr amgen, sy’n ymatebol i anghenion y disgyblion. Mae cynlluniau wythnosol yn rhoi amlinelliad manwl o ddysgu ar gyfer y deuddydd neu dridiau cyntaf bob wythnos, gyda chynllun sgerbwd ar gyfer diwrnodau dilynol eraill. Mae staff yn gwerthuso cynnydd disgyblion trwy ‘ddyddiadur dysgu’, sy’n adlewyrchu’r wybodaeth barhaus am asesu ffurfiannol a gasglwyd trwy gydol yr wythnos. Mae hyn yn cynnwys eu nodiadau o graffu ar waith, arsylwadau o drafodaethau dysgu gyda disgyblion, ac arsylwadau o weithgareddau wedi’u cynllunio, fel sesiynau ‘ymarfer adalw’ bob dydd lle mae athrawon yn adolygu ac yn diwygio dysgu blaenorol yn rheolaidd. Mae hyn yn galluogi’r athro i addasu ei addysgu yn dibynnu ar ba gymorth sydd ei angen ar unigolion, grwpiau neu’r dosbarth cyfan.

Mae arferion buddiol eraill yn cynnwys athrawon yn defnyddio ‘tocynnau ymadael’ wedi’u dylunio’n ofalus lle mae disgyblion yn ymateb i dasg fer sy’n gwerthuso eu dealltwriaeth o’r nodau dysgu ar gyfer y sesiwn honno. Pan fydd y cyfleoedd hyn wedi’u cynllunio’n dda, mae athrawon yn cael darlun clir o gryfderau a chamdybiaethau ar gyfer unigolion a’r dosbarth cyfan. Hefyd, mae lleiafrif o ysgolion yn dechrau datblygu ymagweddau defnyddiol at roi adborth i’r dosbarth cyfan lle mae athrawon yn dadansoddi gwaith disgyblion ar ôl y wers i amlygu cryfderau cyffredin a meysydd cyffredin i’w gwella. Mae’r ddwy ymagwedd, o’u defnyddio’n dda, yn galluogi athrawon i wneud penderfyniadau am ddysgu sy’n gallu bod yn berthnasol i’r dosbarth cyfan, ac yn mynd i’r afael ag unrhyw bryderon cyn symud ymlaen. Mae’r athrawon mwyaf effeithiol yn cydnabod bod angen defnyddio’r dulliau dosbarth cyfan hyn ochr yn ochr ag adborth penodol, o ansawdd da, ar gyfer disgyblion unigol, ac na ddylent gyfyngu ar gyfleoedd i athrawon gefnogi anghenion unigolion.

**Adborth dosbarth cyfan** **Prif ganfyddiadau**

Yn Ysgol Gyfun Penyrheol yn Abertawe, mae’r defnydd o adborth dosbarth cyfan wedi bod yn esblygu ers ei dreial cyntaf yn 2018.

Ar ôl darllen gwaith yr holl ddisgyblion, amlygu camgymeriadau cyffredin a chadw nodiadau, mae’r athro yn llunio taflen ‘Adborth Dosbarth Cyfan’ (ADC) gyda thargedau ar gyfer dysgu dilynol. Mae’r targedau hyn yn ymwneud â’r cynnwys / medrau a oedd yn cael eu hasesu, ac wedyn mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i sicrhau bod ffocws a chyfeiriad i addysgu dilynol.

Er enghraifft, mewn gwersi Saesneg, gellir ailaddysgu meysydd cyffredin i’w datblygu gan ddefnyddio delweddwr i ddangos enghreifftiau da o waith wedi’i gwblhau gan ddisgyblion sy’n dangos y meini prawf llwyddiant. Wedyn, mae disgyblion yn cwblhau tasgau “Gwneud Nawr” lle maent yn defnyddio’r daflen ADC i nodi elfennau cadarnhaol yn eu gwaith eu hunain, yn ogystal â chywiro camgymeriadau a amlygwyd. Yn olaf, caiff disgyblion eu herio i gwblhau tasg newydd neu ailddrafftio tasg yn rhannol sy’n cyfateb i’w targed a ddewiswyd i ymarfer y medr neu atgyfnerthu’r wybodaeth. Fel arall, mewn mathemateg, caiff cwisiau eu dylunio i nodi cryfderau a chamdybiaethau cyffredin. Wedyn, mae athrawon yn datblygu ‘cwestiynau cau’r bwlch’ i ddisgyblion weithio trwyddynt yn y wers ganlynol i fynd i’r afael â chamdybiaethau.

Mae adrannau'n gweithio gyda'i gilydd i rannu camgymeriadau cyffredin ar draws dysgu disgyblion, ac yn defnyddio hyn i lywio cynllunio'r cwricwlwm yn y dyfodol. Mae'r ysgol wedi darganfod bod gan y dull hwn y potensial i leihau baich gwaith athro, gan ei alluogi i roi adborth ffurfiannol yn fwy rheolaidd. Hefyd, mae'n cynyddu ymwybyddiaeth athrawon o'u heffaith ar ddysgu disgyblion, ac yn eu galluogi i ganolbwyntio'n gliriach ar y camau nesaf angenrheidiol ar gyfer addysgu, gan addasu'r cwricwlwm yn unol â hynny.

Mae athrawon effeithiol yn cynllunio dulliau holi yn ofalus wrth gynllunio gwersi. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r dysgu bwriadedig ac yn cynllunio cwestiynau sy'n gallu asesu dealltwriaeth a chamdybiaethau disgyblion. Defnyddiant y rhain yn fedrus trwy gydol y wers i asesu cynnydd ac addasu cyfeiriad y wers, os oes angen.

'Mae'r athrawes yn stopio pan fydd llawer ohonon ni'n gwneud yr un camgymeriad, ac yn esbonio pethau eto neu'n helpu i ni ddeall sut mae'r camgymeriad hwn yn digwydd.'

(Disgybl Blwyddyn 6)

Yn aml, mae athrawon yn integreiddio seibiannau byr mewn gwersi lle maent yn mynd i'r afael â chamgymeriadau cyffredin y maent wedi'u nodi wrth fonitro gwaith disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Yn aml, defnyddir gwaith disgyblion yn ystyriol i roi enghreifftiau o arfer dda i annog disgyblion i fyfyrio gyda'u cyfoedion ar ba mor dda y maent yn gwneud cynnydd. Pan fydd y dull hwn yn fwyaf effeithiol, mae athrawon a staff cymorth yn sicrhau eu bod yn ei ddefnyddio'n bwyllog, ac nad ydynt yn tarfu ar lif y dysgu yn yr ystafell ddosbarth yn ddiangen.

Mae ysgolion sydd ag ymagweddau adeiladol at ddysgu a datblygiad proffesiynol yn cynnwys cyfleoedd i athrawon werthuso llwyddiant strategaethau asesu. Yn yr ysgolion hyn, mae staff yn meddwl yn ofalus am ba wybodaeth y maent eisiau i asesiadau ei chofnodi, a pha mor llwyddiannus y maent yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol. Maent yn myfyrio ar y modd y gall y wybodaeth y maent yn ei chasglu effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu, a sut gall ymagweddau at asesu gael eu mireinio ymhellach. Pan fydd hyn yn hynod ddefnyddiol, mae arweinwyr yn annog staff i wneud eu hymchwil eu hunain, treialu a gwerthuso dulliau asesu yn yr ystafell ddosbarth a rhannu arfer dda â chydweithwyr.

**Sefydlu diwylliant o ddysgu a hunanwella** **Prif ganfyddiadau**

Mae staff yn Ysgol Tregarth yng Ngwynedd wedi gweithio i ddatblygu diwylliant o ddysgu a hunanwella parhaus fel rhan o'u gweledigaeth ar gyfer yr ysgol a'u harferion dyddiol. O ganlyniad, mae elfennau o ymddiriedaeth, gonestrwydd, parch a chymorth wedi'u hymgorffori'n gadarn yn yr ysgol. Adlewyrchir hyn yn strategaeth dysgu proffesiynol yr ysgol, sy'n blaenoriaethu myfyrio personol a chydweithredol a rhannu arfer dda.

Mae athrawon wedi gweithio gyda'i gilydd i fyfyrio ar arferion asesu ffurfiannol a'u heffaith ar ddysgu disgyblion. Maent wedi nodi meysydd i'w gwella ar y cyd, ac wedyn wedi cynllunio'n strategol i ddatblygu ymhellach yr elfennau hynny sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddysgu. Dilynir hyn gan gyfnod o dreialu gan athrawon, sy'n creu fideos ohonyn nhw eu hunain yn defnyddio technegau a ddewiswyd yn eu gwersi ac yn rhannu'r pytiau hyn â'u cymheiriaid. Mae hyn yn galluogi pob un o'r athrawon i fyfyrio yn gyntaf ar eu harfer eu hunain, wedyn yn cynnig adborth adeiladol i'w gilydd ac yn manteisio ar y cyfle i arsylwi arfer dda yn nosbarthiadau ei gilydd. Trwy ddefnyddio'r dull hwn, mae staff wedi gwneud eu hymchwil weithredu eu hunain i holi effeithiol i hyrwyddo meddwl disgyblion a dylunio sesiynau llawn sy'n helpu darparu gwybodaeth i'r athro addasu gwersi dilynol. O ganlyniad, mae athrawon yn datblygu arbenigedd mewn defnyddio asesu ffurfiannol, sy'n llwyddo cynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd cryf.

## Datblygu ymagweddau cydweithredol at asesu yn yr ystafell ddosbarth

Mewn llawer o'r ysgolion yr ydym yn nodi bod ganddynt arferion cryf, mae staff yn defnyddio ystod eang o ymagweddau defnyddiol at asesu ffurfiannol yn yr ystafell ddosbarth i gefnogi dysgu disgyblion. Maent yn cydnabod bod *'cynyddu effeithiolrwydd fel dysgwr'* yn hanfodol i'r Cwricwlwm i Gymru, fel yr amlinellir yn yr egwyddorion dilyniant gorfodol ar gyfer pob MDPh. Yn yr ysgolion hyn, mae athrawon yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o'r dysgu bwriadedig mewn sesiynau, ac yn rhoi adborth adeiladol sy'n herio disgyblion i fod yn gynyddol effeithiol ac annibynnol o ran symud eu dysgu eu hunain ymlaen.

Mae bron pob ysgol yn creu bwriadau dysgu ar gyfer gweithgareddau cynlluniedig ac yn rhoi meini prawf llwyddiant i ddisgyblion i'w helpu i gyrraedd yno. Yn yr ystafelloedd dosbarth mwyaf llwyddiannus, mae'r bwriadau dysgu hyn yn benodol ac yn ymwneud yn glir â'r dysgu bwriadedig, yn hytrach na chwblhau tasg. Maent yn helpu canolbwyntio ar arferion asesu ffurfiannol, fel hunanasesu disgyblion.

Yn yr achosion gorau, mae staff yn meddwl yn ofalus am sut y gellir cymhwyso bwriadau dysgu i ystod ehangach o gyd-destunau neu ddisgyblaethau, ac ailedrych arnynt dros gyfnod. Mae hyn yn cynorthwyo disgyblion i ddyfnhau eu dysgu ac yn eu helpu i drosglwyddo a chymhwyso medrau i sefyllfaoedd anghyfarwydd.

Mae athrawon da yn rhannu bwriadau dysgu gyda disgyblion pan fyddant yn gweddu yn y ffordd fwyaf naturiol i'r broses ddysgu. Yn yr ysgolion hyn, mae arweinwyr yn sicrhau bod polisi ac arfer yn rhoi'r hyblygrwydd i athrawon ddefnyddio eu crebwyll proffesiynol wrth benderfynu sut orau i rannu bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant gyda disgyblion. Er enghraifft, nid yw athrawon bob amser yn eu rhannu ar ddechrau gwersi i helpu ennyn chwilfrydedd disgyblion yn y daith ddysgu. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn defnyddio strategaethau fel dechrau gwersi â 'chwestiynau mawr' i annog disgyblion i feddwl yn ofalus am y dysgu bwriadedig heb ddweud wrthynt beth yn union y mae'r dysgu yn ei gynnwys.

Pan fydd arfer yn llai effeithiol, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau heb gael dealltwriaeth glir o'r dysgu bwriadedig na sut byddant yn asesu cynnydd disgyblion. Ar adegau, nid yw'r bwriadau dysgu hyn yn ychwanegu gwerth at y profiadau dysgu, ac yn aml, maent yn dod yn deitlau ar gyfer darnau o waith y mae'n ofynnol i ddisgyblion eu copïo mewn llyfrau. Yn yr achosion hyn, nid yw bwriadau dysgu bob amser yn cymell disgyblion nac yn eu helpu i ddeall diben eu dysgu.

Pan fydd arfer wrth ddefnyddio meini prawf llwyddiant yn gryf, mae athrawon yn gwneud yn siŵr eu bod yn briodol ar gyfer cyfnod datblygiad disgyblion, a dim ond yn eu defnyddio os ydynt yn ychwanegu gwerth at y broses ddysgu. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth glir o sut beth yw llwyddiant, a sut y gellir ei gyflawni. Maent yn blaenoriaethu prif nodweddion y dysgu bwriadedig, ac nid ydynt yn gorlwytho disgyblion trwy gynnwys gormod o feysydd i ganolbwyntio arnynt. O ganlyniad, mae disgyblion yn yr ysgolion hyn yn defnyddio'r meini prawf hyn yn bwrpasol i fyfyrio ar eu dysgu eu hunain, a'i wella, a chefnogi dysgu eu cyfoedion.

Mae’r athrawon mwyaf effeithiol yn modelu ymagweddau da at ddysgu gyda disgyblion neu’n rhannu darnau gwaith da i ddangos sut beth yw llwyddiant. Yn aml, mae’r athrawon hyn yn creu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu meini prawf llwyddiant gyda’i gilydd neu ochr yn ochr ag oedolion. Pan fydd hyn yn hynod lwyddiannus, mae athrawon yn sicrhau bod y broses yn cael ei modelu’n dda a bod digon o amser yn cael ei roi iddi. O ganlyniad, mae disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth hyn yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o sut i wneud eu gwaith, ac yn aml yn dangos annibyniaeth gynyddol mewn cynllunio eu dysgu eu hunain.

Mewn ychydig o achosion, lle bo’n briodol, mae athrawon yn gwahaniaethu meini prawf llwyddiant i gynorthwyo pob disgybl i gyrraedd bwriad dysgu ar y cyd. Mae hyn yn helpu darparu cymorth priodol ar gyfer disgyblion a herio’r rhai mwy abl. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn datblygu medrau cryf o ran dysgu’n annibynnol, a gallant ddewis o blith ystod wahaniaethol o feini prawf llwyddiant ar lefel sy’n briodol heriol.

**Datblygu annibyniaeth disgyblion** **Prif ganfyddiadau**

Mae staff yn Ysgol Gynradd Twm o’r Nant yn Sir Ddinbych yn cynllunio’n ofalus i ddarparu cyfleoedd sy’n annog pob un o’r disgyblion, o’r ieuengaf hyd at Flwyddyn 6, i wneud dewisiadau am eu dysgu. Rhoddir ystyriaeth ofalus i ddulliau ar draws grwpiau oedran, i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o’u dysgu eu hunain a gwella’u hyder i herio eu hunain. Mae staff yn cynllunio gweithgareddau dysgu sy’n cael eu cefnogi’n dda gan feini prawf llwyddiant sy’n briodol i gyfnod datblygu disgyblion. Mae staff yn cynorthwyo disgyblion i wneud penderfyniadau am eu dysgu, gan ddewis eu ‘lefel seren’ eu hunain o feini prawf llwyddiant. Mae’r rhain yn darparu cymorth neu her gynyddol tra’n cyfeirio disgyblion tuag at y bwriad dysgu cyffredinol. Gall disgyblion ddefnyddio’r rhain i asesu eu dysgu a’u cynnydd eu hunain a’u cyfoedion. Erbyn i ddisgyblion gyrraedd Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn deall ac yn dewis y lefel her sydd fwyaf defnyddiol wrth symud eu dysgu eu hunain ymlaen.

‘Rwy’n darllen y tri maen prawf llwyddiant sydd wedi cael eu gosod yn gyntaf cyn penderfynu pa dasg i’w gwneud. Rwy’n mwynhau herio fy hun, oherwydd os yw’r gwaith yn rhy hawdd, dydw i ddim yn cael cymaint ohono… Os ydw i wedi dewis ‘tasg ragorol 2 seren’ ac mae’r gwaith yn rhy hawdd, rwy’n gallu newid i wneud tasg fwy heriol, yr un fath os yw’r gwaith yn rhy heriol, rwy’n gallu dewis tasg un seren.’

(Disgybl Blwyddyn 6)

Yn aml, mae athrawon sy’n datblygu diwylliant cryf o gydweithio yn yr ystafell ddosbarth yn ennyn diddordeb disgyblion i fyfyrio ar effeithiolrwydd y bwriadau dysgu a’r meini prawf llwyddiant. Er enghraifft, maent yn annog disgyblion i weithio gyda’i gilydd i archwilio’n feirniadol pa mor ddefnyddiol y maent yn cefnogi hunanasesu ac asesu cyfoedion. Mae’r dull hwn yn helpu athrawon a disgyblion i nodi meysydd i’w gwella, er enghraifft sicrhau bod meini prawf llwyddiant yn ddigon manwl gywir a buddiol.

**Datblygu diwylliant o fyfyrio cydweithredol** **Prif ganfyddiadau**

Mae staff yn Ysgol Gynradd Llandyfái yn Sir Benfro yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu cynnwys yn llawn yn y broses o ddatblygu meini prawf llwyddiant a myfyrio ar eu heffaith mewn cynorthwyo dysgu. Mae athrawon yn gweithio gyda disgyblion i lunio meini prawf llwyddiant ar ôl sicrhau bod disgyblion yn deall sut beth yw dysgu da. Er enghraifft, mae disgyblion yn cynhyrchu ac yn actio eu sgetshis drama eu hunain gan ddefnyddio detholiad byr o Macbeth. Maent yn defnyddio adborth cyfoedion i helpu gwella perfformiadau ei gilydd, ac wedyn yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu meini prawf llwyddiant ar gyfer eu hysgrifennu eu hunain, yn seiliedig ar y gwaith hwn. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu'n bwrpasol â'u dysgu, dan arweiniad medrus yr athro, ac yn 'darganfod' meini prawf llwyddiant clir ar gyfer darn o waith drostyn nhw eu hunain.

Hefyd, mae athrawon yn creu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar ba mor ddefnyddiol oedd y meini prawf llwyddiant o ran gwella adborth cyfoedion ac athrawon. Er enghraifft, ar ôl ailddrafftio eu gwaith ysgrifenedig, mae disgyblion yn gwneud nodiadau bras am yr adborth a oedd yn effeithiol neu ddim yn effeithiol o ran eu cynorthwyo i wella'u gwaith. Maent yn rhoi'r nodiadau hyn mewn dau gwpan yn nhu blaen y dosbarth â labeli 'defnyddiol' a 'ddim yn ddefnyddiol'. Wedyn, mae'r athro yn defnyddio'r rhain i ennyn disgyblion i drafod pa feini prawf llwyddiant ac ymatebion adborth oedd fwyaf defnyddiol wrth symud eu dysgu ymlaen. O ganlyniad i'r cydweithio rheolaidd hwn, yn aml mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o sut beth yw darn o waith o ansawdd da, ac yn datblygu medrau defnyddiol sy'n eu galluogi i hunanasesu eu gwaith eu hunain gan ddefnyddio meini prawf llwyddiant cadarn yn fwy cywir.

Mewn ystafelloedd dosbarth effeithiol, mae athrawon yn darparu adborth sy'n helpu disgyblion i ddeall beth maent wedi'i wneud yn dda ac yn nodi'n glir beth mae angen iddynt ei wneud nesaf, a sut. Pan fydd hyn yn fwyaf defnyddiol, mae athrawon yn sicrhau bod iddo ffocws, ei fod wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â bwriadau dysgu, ac yn galluogi disgyblion i ddeall eu camau nesaf yn hytrach na gor-ddefnyddio strategaethau sy'n cael ychydig iawn o effaith ar ddysgu disgyblion, er enghraifft stampiau adborth neu farcio canmoliaeth.

Pan fydd arfer yn gryf, mae athrawon yn deall sut mae adborth yn effeithio ar gymhelliant disgyblion unigol, ac yn ymwybodol o effaith negyddol gor-ddefnyddio canmoliaeth gadarnhaol ar ddysgu (Hattie & Timperley, 2007). Maent yn sicrhau bod disgyblion yn deall sut i dderbyn a defnyddio adborth yn briodol, ac yn gwerthfawrogi eu rôl weithredol eu hunain yn y broses adborth. O ganlyniad, yn yr ysgolion hyn, mae gan ddisgyblion agweddau cryf at ddysgu ac yn ymdrin â heriau yn hyderus.

> "Rwy'n gallu defnyddio 'Hyd yn Oed yn Well Os' i wella fy ngwaith gan ei fod yn helpu mynd ag ef i'r lefel nesaf yn hytrach na dim ond sylwadau geiriol sydd ond yn eich helpu chi hanner ffordd drwodd"
>
> (Disgybl Blwyddyn 5)

Yn yr arfer orau, mae athrawon yn defnyddio ystod o adborth i gynorthwyo eu disgyblion ar wahanol adegau yn y broses ddysgu. Er enghraifft, maent yn darparu adborth 'ar y pryd' lle mae'n fwyaf priodol ac nad yw'n tarfu ar

ddisgyblion nac yn tarfu ar eu meddwl. Hefyd, maent yn ‘oedi’ ymagweddau at adborth pan fydd yn briodol i helpu gwella annibyniaeth disgyblion a dyfnhau meddwl dros gyfnod. Er enghraifft, maent yn defnyddio adborth mewn gwersi dilynol, neu adborth ysgrifenedig unigol manylach ar gyfer disgyblion. Mae athrawon effeithiol bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd ystyrlon i ymateb i unrhyw adborth a roddwyd i wella ansawdd eu gwaith.

**Eistedd yn y gadair goch** **Prif ganfyddiadau**

Mae athrawon yn yr adran Saesneg yn Ysgol Gymunedol Cwm Tawe yn Abertawe yn defnyddio dull adborth o’r enw 'Eistedd yn y gadair goch.' Wedi i’r athro dosbarth farcio gwaith disgyblion, rhoddir tasg atgyfnerthu i ddisgyblion yn y dosbarth y gallant ei chwblhau yn annibynnol er mwyn galluogi’r athro i alw ar fyfyrwyr i ddod i eistedd yn ‘Y Gadair Goch’ un ar y tro. Caiff amserydd ei osod am 60 eiliad, ac mae’r athro yn mynd trwy waith y disgybl, gan drafod yr adborth ysgrifenedig gydag ef. Mae’r athro yn rhannu’r amser yn gyfartal rhwng 'Beth Aeth yn Dda' a 'Hyd yn Oed yn Well Os...'. Wedyn, mae’r athro yn rhoi amser i ddisgyblion weithredu yn unol â’r adborth hwn ar unwaith. Er enghraifft, gallai’r disgybl anodi rhywfaint o’i waith mewn inc gwyrdd, ysgrifennu 'Cynllun Hunanwella' ar ddiwedd y traethawd neu greu nodiadau bras ar yr ymyl sy’n disgrifio beth weithiodd yn dda neu ble mae angen gwelliannau. Nid yw athrawon yn sôn am farciau na graddau, ond yn canolbwyntio’n fwy buddiol ar yr agweddau cadarnhaol ar y gwaith a’r meysydd i’w datblygu a’u gwella. O ganlyniad, mae disgyblion yn canolbwyntio llawer mwy ar yr adborth ac anodi eu gwaith, yn hytrach nag unrhyw farc neu radd grynodol. Mae’r arfer hon yn sicrhau bod asesu yn broses ddwy ffordd gefnogol a chydweithredol.

> Mae ymchwil yn dangos bod marcio trwy roi sylwadau yn unig yn fwy effeithiol mewn gwella dysgu disgyblion na graddau. Mae marcio trwy roi sylwadau yn unig yn fwy effeithiol na defnyddio graddau a sylwadau gan fod disgyblion yn aml yn diystyru sylwadau ac yn canolbwyntio ar y graddau, nad ydynt yn rhoi camau gweithredadwy ar gyfer gwella.
>
> Butler (1988)

**Strategaethau adborth** **Prif ganfyddiadau**

Yn Ysgol Gyfun Pontarddulais yn Abertawe, mae staff yn defnyddio ystod o strategaethau asesu ar gyfer dysgu a ddeellir yn dda i greu diwylliant ystafell ddosbarth difyr a phwrpasol. Mae staff yn rhannu a modelu meini prawf llwyddiant i arwain disgyblion, ac mae eu hadborth yn ddiagnostig a chlir, sy’n sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o fewn cyfres o wersi, ac ar eu traws.

Trwy holi a modelu medrus, mae athrawon yn cynorthwyo disgyblion i fynd y tu hwnt i ymatebion arwynebol i ddarparu atebion ystyriol a manwl, gan ddefnyddio geirfa sy’n benodol i bwnc ar lefel uwch yn hyderus.

Yn ddiweddar, mae adborth ysgrifenedig athrawon wedi cael ei fireinio gan ddefnyddio tasgau 'Aros Gweithredu Meddwl Myfyrio' ('Stop Act Think Reflect') (STAR). Mae'r rhain yn galluogi disgyblion i ymateb i adborth trwy gwblhau tasgau teilwredig wedi'u dylunio gan yr athro i weddu i'r camau nesaf unigol penodol mewn dysgu. Esblygodd tasgau STAR i ddatrys problem ymatebion byr ac ailadroddus disgyblion i adborth ysgrifenedig athrawon.

O ganlyniad, mae adborth wedi esblygu i fod yn arfer asesu werth chweil lle mae athrawon nid yn unig yn asesu cynnydd ond yn pennu gweithgareddau dysgu perthnasol ac ystyrlon i ddyfnhau a chefnogi dysgu. Mae hyn yn ychwanegu gwerth at ddysgu disgyblion ac yn sicrhau bod disgyblion yn rhan fuddiol o'r cylch dysgu.

Mae llawer o ysgolion wedi myfyrio ar y dulliau adborth a ddatblygwyd yn ystod y pandemig, ac mewn ychydig o achosion, wedi parhau i fireinio dulliau defnyddiol i gefnogi dysgu disgyblion, lle bo'n briodol. Er enghraifft, mae athrawon yn cofnodi adborth llafar i unigolion neu ddosbarthiadau tra'n edrych ar waith disgyblion. Wedyn, caiff adborth ei anfon yn ddigidol at fyfyrwyr unigol neu'r dosbarth cyfan, gan eu galluogi i ailchwarae'r adborth mor aml ag sydd angen i wella eu gwaith.

'Mae rhoi cyfrifoldeb i ddysgwyr am eu dysgu eu hunain (ac, yn hollbwysig, rhoi cymorth iddynt wneud hynny) drwy'r broses asesu yn meithrin eu gallu i weithredu fel asiantau sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain, yn rhannu'r cyfrifoldeb am ddysgu pawb ac yn cyfrannu at gynllunio dilyniant pellach yn eu dysgu.'

Llywodraeth Cymru (2020, tud.8)

Pan gaiff asesu cyfoedion ei ddefnyddio'n dda mewn ysgolion, caiff ei gynllunio'n ystyriol a'i gefnogi'n dda gan athrawon er mwyn datblygu medrau disgyblion. Mae athrawon da yn modelu dulliau adborth i gyfoedion, yn creu rolau a disgwyliadau clir ac yn cynnwys disgyblion mewn deall effaith eu hadborth ar eu cyfoedion. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn cynorthwyo disgyblion i roi adborth *'penodol, buddiol, a charedig'* (Berger, 2003, tud. 93) sy'n annog diwylliant o gymorth yn yr ystafell ddosbarth. Mae athrawon yn monitro ansawdd adborth disgyblion i'w gilydd, ac yn gweithio gyda nhw i nodi sut y gellir ei wella. Yn yr achosion gorau, mae arweinwyr ac athrawon wedi gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu modelau graddol ar gyfer asesu cyfoedion sy'n adeiladu'n systematig ar draws grwpiau oedran ac yn cefnogi dysgu disgyblion yn effeithiol.

Pan fydd athrawon wedi datblygu ymagweddau gwerth chweil at hunanasesu, maent yn sicrhau bod gan ddisgyblion ddealltwriaeth glir o sut beth yw darn o waith llwyddiannus. Maent yn modelu enghreifftiau o ddysgu wedi'u cefnogi gan feini prawf llwyddiant clir y gall disgyblion eu defnyddio wedyn i fyfyrio'n ystyriol ar eu gwaith eu hunain a gwneud gwelliannau.

Pan fydd hunanasesu yn llai effeithiol, yn aml, mae'n ofynnol i ddisgyblion gwblhau rhestrau ticio o feini prawf llwyddiant heb gael cyfleoedd ystyrlon i wella'u gwaith. Yn yr achosion hyn, nid yw'n brofiad defnyddiol, ac nid yw disgyblion wedi eu cymell i fod yn fwy annibynnol yn eu dysgu.

'Weithiau, rydyn ni'n treulio mwy o amser yn ticio meini prawf llwyddiant nag ydyn ni'n gwneud ein gwaith. Byddai'n well rhoi ein meddwl ar waith yn hytrach na phoeni am y meini prawf llwyddiant.'

(Disgybl Blwyddyn 5)

**Cefnogi medrau hunanasesu disgyblion** **Prif ganfyddiadau**

Mae staff yn Ysgol Gynradd Waunceirch yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cefnogi medrau disgyblion mewn asesu cyfoedion gan ddefnyddio 'Cynadleddau Dysgu'. Mae'r dull hwn wedi esblygu ar ôl cael adborth gan ddysgwyr yn ystod cylch hunanwerthuso'r ysgol. Nododd disgyblion eu bod yn dysgu orau pan fyddant yn cael cymorth gan ffrind sy'n eistedd wrth eu hochr ac yn gweithredu fel anogwr dysgu. O ganlyniad, mae athrawon yn creu parthau 'cynhadledd' mewn ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd a rennir. Mae'r cynadleddau hyn wedi'u cynllunio i gynnwys cyfleoedd i ddisgyblion gael sgyrsiau rheolaidd am ddysgu gyda'u hathrawon a'u cyfoedion, a datblygu eu medrau eu hunain wrth roi adborth i'w gilydd.

'Mae yna dystiolaeth sylweddol fod asesu cyfoedion yn gallu arwain at welliannau yn effeithiolrwydd ac ansawdd y dysgu, sydd o leiaf cystal â buddion o asesiadau athrawon.'

Topping (2009, tud.22)

Mae tri math o gynhadledd yn nodweddiadol.

- Cynhelir cynadleddau **'un i un'** rhwng yr athro a'r disgybl. Defnyddir y rhain i rannu a thrafod gwaith, mynd i'r afael â chamdybiaethau, a rhoi cymorth i ddisgyblion unigol wrth benderfynu ar eu camau nesaf.
- Mae cynadleddau grŵp **dan arweiniad yr athro** yn ymgysylltu â sawl disgybl i drafod tasg a modelu adborth a holi effeithiol sy'n cynorthwyo disgyblion i symud eu dysgu ymlaen.
- Cynadleddau **dan arweiniad y dysgwr** sy'n galluogi disgyblion i gymryd rôl yr athro dosbarth i gymhwyso'r medrau y maent wedi'u dysgu i gefnogi dysgu ei gilydd.

O ganlyniad i'r dull systematig ac ystyriol hwn, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda fel myfyrwyr myfyriol sy'n gallu cynorthwyo'i gilydd â hyder a medr cynyddol.

Pan fydd yr addysgu yn fwyaf effeithiol, mae disgyblion yn ystyried bod asesu cyfoedion yn rhan ddefnyddiol o'u dysgu. Dywedodd disgyblion ysgolion cynradd wrthym fod y dull hwn yn eu helpu i gael adborth defnyddiol 'â llai yn y fantol' *"heb boeni am beth mae'r athro'n ei feddwl"* ac mae hefyd yn galluogi iddynt wella'u gwaith ymhellach trwy *"gasglu syniadau ei gilydd".* Lle nad yw asesu cyfoedion wedi'i sefydlu'n ddigon da, mae disgyblion hŷn weithiau'n codi pryderon am ei effaith

gymdeithasol; er enghraifft, maent yn ‘ofni’ rhannu eu gwaith neu wneud eu hunain yn agored i’w cyd-ddisgyblion graffu arnynt. O ganlyniad, yn aml, mae’r disgyblion hyn yn rhoi adborth o ansawdd gwael i’w cyfoedion, ac nid yw hyn yn cefnogi dysgu’n ddigon da.

Pan fydd ysgolion yn cydweithio’n rheolaidd â rhieni i rannu tystiolaeth asesu o gynnydd eu plant, yn aml, caiff disgyblion gyfleoedd defnyddiol i ymestyn eu dysgu. Mae’r ysgolion hyn yn datblygu perthnasoedd cryf â rhieni ac yn ystyried eu bod yn hanfodol i’r broses ddysgu. Maent yn rhannu profiadau dysgu o’r ystafell ddosbarth gyda rhieni ac yn rhoi cymorth i rieni ddatblygu agweddau penodol ar ddysgu eu plentyn gartref ymhellach.

**Cynorthwyo cydweithio gartref** **Prif ganfyddiadau**

Mae staff yn Ysgol Dolbadarn yng Ngwynedd wedi gweithio i ddatblygu perthnasoedd llwyddiannus gyda rhieni i gefnogi dysgu eu plentyn gartref. Mae’r ysgol wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer cymuned ddysgu sy’n rhannu cyfrifoldeb yn effeithiol rhwng y cartref a’r ysgol. Maent yn defnyddio platfformau digidol i rannu gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn rheolaidd, yn ogystal â defnyddio adborth gan rieni i greu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau unigol yn yr ysgol.

Mae staff wedi ymgorffori ystod o strategaethau ffurfiannol i gasglu gwybodaeth am ddysgu disgyblion. Mae’r strategaethau hyn yn cynnwys arsylwadau mewn gwersi, craffu ar waith a thrafodaethau â dysgwyr. Defnyddir y wybodaeth hon i nodi camau nesaf unigol y disgyblion, ac os yw’n briodol, rhennir y rhain gyda rhieni fel y gallant gefnogi dysgu eu plentyn gartref.

I wella effeithiolrwydd dysgu gartref ymhellach, mae staff yn modelu ymagweddau at addysgu ar gyfer rhieni wedi’u seilio ar y medrau y mae angen i ddisgyblion eu cryfhau. Er enghraifft, mae staff wedi creu fideos byr o athrawon yn cefnogi datblygiad medrau darllen disgyblion.

> “Eleni, rwyf wedi teimlo’n rhan o lwyddiant a chynnydd fy mhlentyn. Mae’r adborth a’r targedau rwy’n eu cael yn sicrhau fy mod i’n gwybod i’r dim sut i’w helpu, yn ogystal â deall y profiadau mae wedi’u cael yn y dosbarth. Mae wedi bod yn bleser cymryd cymaint o ran mewn gwella datblygiad fy mhlentyn.”
>
> Adborth rhiant i’r ysgol

O ganlyniad i’r cyfathrebu rheolaidd hwn â rhieni, caiff dysgwyr yn yr ysgol eu cynorthwyo’n dda i ddatblygu’r agweddau a’r ymddygiadau allweddol a fydd yn eu helpu i ddysgu trwy gydol eu bywydau.

# Dulliau a sail y dystiolaeth

## Rhestr o ddarparwyr yr ymwelwyd â nhw

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Penrhyn Dewi | Pob oed | Sir Benfro |
| Ysgol Caer Elen | Pob oed | Sir Benfro |
| Ysgol Tregarth | Cynradd | Gwynedd |
| Ysgol Gynradd Aber-carn | Cynradd | Caerffili |
| Ysgol Glasllwch | Cynradd | Casnewydd |
| Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Trefyclo | Cynradd | Powys |
| Ysgol Gynradd Llandyfái | Cynradd | Sir Benfro |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands | Cynradd | Torfaen |
| Ysgol Twm O'r Nant | Cynradd | Sir Ddinbych |
| Ysgol Dolbadarn | Cynradd | Gwynedd |
| Ysgol Gynradd Yr Eglwys yng Nghymru Osbaston | Cynradd | Sir Fynwy |
| Ysgol Gynradd Waunceirch | Cynradd | Castell-nedd Port Talbot |
| Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysowen | Cynradd | Merthyr Tudful |
| Ysgol Gynradd Bryn Bach | Cynradd | Blaenau Gwent |
| Ysgol Gynradd Ewloe Green | Cynradd | Sir y Fflint |
| Ysgol Gynradd Carreghofa | Cynradd | Powys |
| Ysgol Gynradd Gellifedw | Cynradd | Abertawe |
| Ysgol Plascrug | Cynradd | Ceredigion |
| Ysgol Y Creuddyn | Uwchradd | Conwy |
| Ysgol Uwchradd Caerdydd | Uwchradd | Caerdydd |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant | Uwchradd | Casnewydd |
| Ysgol Treorci | Uwchradd | Rhondda Cynon Taf |
| Ysgol Gymunedol Cwmtawe | Uwchradd | Abertawe |
| Ysgol Gyfun Y Strade | Uwchradd | Sir Gaerfyrddin |
| Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt | Uwchradd | Abertawe |
| Ysgol Uwchradd Crucywel | Uwchradd | Powys |
| Ysgol Pontarddulais | Uwchradd | Abertawe |
| Ysgol Uwchradd Castell Alun | Uwchradd | Sir y Fflint |
| Ysgol Uwchradd Penyrheol | Uwchradd | Abertawe |
| Ysgol Gyfun Y Pant | Uwchradd | Rhondda Cynon Taf |
| Ysgol Pencoch | Arbennig | Sir y Fflint |
| Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae’r Drindod | Arbennig | Caerffili |

# Geirfa

## Niferoedd – symiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Berger, R. (2003) *An Ethic of Excellence: Building a Culture of Craftsmanship with Students*. Portsmouth: Heinemann, a division of Reed Elsevier Inc.

Biggs, J., (1996) *Enhancing Teaching through Constructive Alignment.* Netherlands: Kluwer Academic Publishers. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.jstor.org/stable/3448076?origin=JSTOR-pdf, [Darllenwyd 18 Awst 2022].

Butler, R (1988) Enhancing and Undermining Intrinsic Motivation: The Effects Of Task-Involving and Ego-Involving Evaluation on Interest and Performance. [Ar-lein]. *British Journal of Educational Psychology,* **58**(1), tt. 1-14. Ar gael o: https://doi.org/10.1111/j.2044-8279.1988.tb00874.x, [Darllenwyd 26 Medi 2022].

Donaldson, (2015), *Dyfodol Llwyddiannus – Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf, [Darllenwyd 26 Medi 2022].

Ebbinghaus, H., (1964). Memory: A contribution to Experimental Psychology. H. Ruger and C. Bussenius. *Trans. New York: Dover Publications*.

Estyn (2014) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2012-2013.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Adroddiad_Blynyddol_Prif_Arolygydd_Ei_Mawrhydi_dros_Addysg_a_Hyfforddiant_yng_Nghymru_2012-2013.pdf, [Darllenwyd 23 Medi 2022].

Estyn (2018a) *Arloesi'r Cwricwlwm mewn Ysgolion Cynradd.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Curriculum%2520innovation%2520in%2520primary%2520schools%2520-%2520cy.pdf, [Darllenwyd 23 Medi 2022].

Estyn (2018b) *Gwella Addysgu.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Improving%20teaching%20-%20cy.pdf, [Darllenwyd 23 Medi 2022].

Estyn (2018c) *Paratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Preparing%2520for%2520the%2520DCF%2520cym.pdf, [Darllenwyd 23 Medi 2022].

Estyn (2020a) *Datblygu arweinyddiaeth – astudiaethau achos o ddysgu proffesiynol ar gyfer arweinyddiaeth ysgolion*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-08/Leadership%2520development%2520-%2520Thematic%2520survey%2520report%2520cy.pdf, [Darllenwyd 23 Medi 2022].

Estyn (2020b) *Paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru – astudiaethau achos a chameos gan ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021-08/Preparing%20for%20the%20Curriculum%20for%20Wales%20cy.pdf, [Darllenwyd 23 Medi 2022].

Estyn (2021a) *Arweiniad Atodol ar arolygu asesu.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/document-page/20508/contents?_ga=2.107294658.1908266026.1664449405-1904192321.1664449405, [Darllenwyd 26 Medi 2022].

Estyn (2021b) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2019-2020.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2021-12/Adroddiad%20Blynyddol%20Estyn%202019-2020.pdf, [Darllenwyd 26 Medi 2022].

Estyn (2022a) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2020-2021.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://senedd.cymru/media/crrgz34i/gen-ld15078-w.pdf, [Darllenwyd 26 Medi 2022].

Estyn (2022b) *Y Cwricwlwm i Gymru – Sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion?* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-03/Y%20Cwricwlwm%20i%20Gymru%20%E2%80%93%20sut%20mae%20consortia%20rhanbarthol%20ac%20awdurdodau%20lleol%20yn%20cynorthwyo%20ysgolion.pdf, [Darllenwyd 26 Medi 2022].

GwE (2019) *Timau Ymchwil Haen 2, Adroddiad Gweithredu ac Effaith Medi 2018 – Gorffennaf 2019.* Gwynedd: GwE. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2020/01/Prosiect-Asesu-Ffurfiannol-Rhanbarthol-GwE-adroddiad-Haen-2-1.pdf, [Darllenwyd 26 Medi 2022].

Hattie, J. (2012). *Visible learning for teachers: Maximizing impact on learning*. London: Routledge.

Hattie, J. a Timperley, H. (2007) The Power of Feedback. [Ar-lein]. *Review of Educational Research,* **77**(1), tt. 81-112. Ar gael o: https://doi.org/10.3102/003465430298487, [Darllenwyd 26 Medi 2022].

Llywodraeth Cymru (2020) *Asesu a lles dysgwyr: systemau cymorth cydfuddiannol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/api/storage/8d0b4da9-0874-438c-8603-5118cd82c5a2/asesu-a-llesiant-dysgwyr-systemau-cymorth-cydfuddiannol.pdf, [Darllenwyd 26 Medi 2022].

Llywodraeth Cymru (2022b) *Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau asesu.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/trefniadau-asesu/cefnogi-cynnydd-dysgwyr-canllawiau-asesu/, [Darllenwyd 26 Medi 2022].

Llywodraeth Cymru, (2022a), *CAMAU Asesu ar gyfer y Dyfodol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/api/storage/bbbee34f-bb36-4b69-ab21-2a832e7bad60/Assessing for the future materials - Handbook - en.pdf - page=21&zoom=100,92,718, [Darllenwyd 26 Medi 2022].

OECD (2014) *Improving Schools in Wales: an OECD Perspective.* France: OECD.

Roediger III, H.L. a Butler, A.C. (2011). The critical role of retrieval practice in long-term retention. [Ar-lein]. *Trends in cognitive sciences*, ***15***(1), tt.20-27. Ar gael o: https://doi.org/10.1016/j.tics.2010.09.003, [Darllenwyd 26 Medi 2022].

Sefydliad Gwaddol Addysgol (2021) *Teacher feedback to improve pupil learning.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://d2tic4wvo1iusb.cloudfront.net/eef-guidance-reports/feedback/Teacher_Feedback_to_Improve_Pupil_Learning.pdf?v=1635355218, [Darllenwyd 18 Awst 2022].

Swaffield, S. ed., (2008). *Unlocking assessment: Understanding for reflection and application*. Abingdon: Routledge.

Timperley, (2013), *Learning to Practise – A paper for discussion.* Wellington: Ministry of Education. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.educationcounts.govt.nz/__data/assets/pdf_file/0014/120146/Learning-To-Practise.pdf, [Darllenwyd 23 Medi 2022].

Topping (2009) Peer Assessment. [Ar-lein]. *Theory Into Practice,* **48**, 1, tud.20-27. Ar gael o: https://doi.org/10.1080/00405840802577569, [Darllenwyd 26 Medi 2022].

Wiliam, D. (2010) The role of formative assessment in effective learning environments. *The nature of learning: Using research to inspire practice*, tt.135-155.

Wiliam, D. a Leahy, S. (2015) *Embedding Formative Assessment*. West Palm Beach: Learning Sciences International